OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 4

## Cofrestru masnachwyr planhigion ac awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion

**Awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion**

**29.**—(1) Rhaid i fasnachwr planhigion cofrestredig sy'n dymuno dyroddi pasbortau planhigion mewn perthynas â deunydd perthnasol sydd i'w symud o unrhyw fangre yng Nghymru wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am yr awdurdod i wneud hynny.

(2) Rhaid i'r ceisydd ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw fanylion sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r deunydd perthnasol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnal unrhyw archwiliad o'r deunydd perthnasol a'r fangre y mae'r deunydd i'w symud ohoni y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r cais.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond rhoi awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi sylw i unrhyw archwiliad o'r deunydd perthnasol a'r fangre sy'n destun y cais, wedi eu bodloni—

(a) bod y fangre a'r deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion perthnasol; a

(b) pan bennir unrhyw ofynion o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny.

(5) Rhaid i awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir gan Weinidogion Cymru gael ei roi yn ysgrifenedig a chaniateir ei roi yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion perthnasol o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, gan gynnwys y tiriogaethau y bydd y pasbortau planhigion sydd i'w dyroddi yn ddilys ar eu cyfer.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro weithredu awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion yn gyfan gwbl neu mewn perthynas â mangre benodedig neu ddeunydd perthnasol penodedig os nad yw Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi sylw i unrhyw archwiliad o fangre'r masnachwr planhigion cofrestredig ac unrhyw ddeunydd perthnasol yno, wedi eu bodloni—

(a) bod y fangre neu'r deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion perthnasol; a

(b) pan bennir unrhyw ofynion o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro weithredu awdurdodiad i ddyroddi pasbort planhigion, neu amrywio awdurdodiad, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol, os ydynt wedi eu bodloni bod y masnachwr planhigion cofrestredig wedi methu ag—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru yn unol ag erthygl 27(2) am unrhyw newid yn y manylion a gofrestrwyd mewn perthynas â'r masnachwr planhigion;

(b) cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau a bennir yn erthygl 28(1);

(c) cydymffurfio ag unrhyw amodau yn yr awdurdodiad a roddwyd o dan baragraff (5); neu

(d) cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad a gyflwynwyd i'r masnachwr planhigion o dan erthygl 32.

(8) Yn yr erthygl hon ystyr "pla planhigion perthnasol" ("*relevant plant pest*") yw—

(a) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1; neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, pla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno sy'n bresennol ar y deunydd perthnasol.